Gosod strategaeth ar gyfer 2010-15

Cyfnod ymgynghori 2

Cwblhau'r ymarfer ymgynghori

Ymatebwch i

Anfonwch eich ymatebion i **Dian Taylor,** Prif Weithredwr a Chofrestrydd, erbyn **1 Chwefror 2010** fan bellaf.

Post: 41 Harley Street, London, W1G 8DJ

E-bost: dtaylor@optical.org

Cynhwyswch fanylion cyswllt er mwyn i ni gael mynd ar drywydd unrhyw agwedd berthnasol o'ch ymateb. Oni nodwch fel arall (ac ni fydd ymwadiad awtomatig sy'n cael ei greu gan eich system TG yn cael ei gymryd fel y cyfryw), byddwn yn rhagdybio eich bod yn fodlon i ni gyhoeddi eich ymateb a'i rannu â chyrff a rhanddeiliaid priodol eraill.

Gwybodaeth bellach

Lle bo'n bosibl, darparwch dystiolaeth i ategu'ch ymateb. Os ydych yn grŵp cynrychioliadol, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn cynnwys crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau rydych yn eu cynrychioli.

Mae copi o'r ddogfen ymgynghori hon wedi ei anfon at nifer fawr o grwpiau rhanddeiliaid sy'n cynrychioli ein haelodau cofrestredig, y cyhoedd, cleifion, cyrff partner a grwpiau eraill.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr ymarfer ymgynghori cysylltwch â **Naomi Ford** ar 020 7307 3468 neu nford@optical.org

Ymrwymiad y GOC i ymgynghori

Cred y Cyngor Optegol Cyffredinol ei bod yn bwysig bod gan y bobl mae ein gwaith yn effeithio arnynt lais yn y ffordd rydym yn ei gyflwyno. Credwn ei bod yn hanfodol ymgynghori â phob grŵp sydd â diddordeb yn y GOC; cleifion, y cyhoedd, ein haelodau cofrestredig, cyrff optegol, cyrff gofal iechyd, cyflogwyr, rheoleiddwyr eraill, staff a rhanddeiliaid eraill.

Mae ymgynghori effeithiol yn werthfawr i'n helpu i wella sut rydym yn gweithio. Mae'n ein llywio ac yn ein helpu i gyflawni ein cenhadaeth sef amddiffyn y cyhoedd drwy hyrwyddo gofal llygaid da.

Yn ddiweddar rydym wedi lansio fframwaith ymgynghori i safoni a gwella ein dulliau ymgynghori ledled y sefydliad. Mae hwn ar gael ar ein gwefan.

Byddem yn croesawu adborth am y broses ymgynghori ei hun. Os oes gennych unrhyw sylwadau cysylltwch â **Simon Grier** ar sgrier@optical.org

Crynodeb o'r ymgynghori

Dyddiad dechrau: 4 Rhagfyr 2009 **Dyddiad gorffen:** 1 Chwefror 2010
Cyhoeddi'r canlyniadau: Bydd y strategaeth yn mynd gerbron y Cyngor am gymeradwyaeth ar 25 Chwefror.
Cysylltwch â: Naomi Ford 020 7307 3468, nford@optical.org

Crynodeb o'r ymgynghori

1. Dechreuodd GOC newydd, wedi ei ailgyfansoddi, o 12 aelod wedi eu penodi'n llawn, yn eu swyddi ar 1 Ebrill 2009.

2. Yn ei gyfarfod agoriadol a gynhaliwyd ar 2 Ebrill 2009 cytunodd y Cyngor fecanweithiau ar gyfer ei dair prif rôl, sef:
- Sefydlu cyfeiriad strategol ar gyfer y GOC
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth lunio a chyflwyno'r strategaeth honno; a
- Dal y weithrediaeth i gyfrif am gyflwyniad y strategaeth.

3. Er mwyn sefydlu ei gynllun strategol ar gyfer 2010-15 agorodd y Cyngor ymarfer ymgynghori dau gyfnod a gwahodd rhanddeiliaid i roi eu barn am waith y GOC yn y dyfodol. Mae crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i gyfnod 1 o'r ymgynghori i'w weld yn Atodiad 3.

4. Yn ogystal rhwng Mai a Medi 2009, gwahoddodd y Cyngor randdeiliaid allweddol i gyflwyno eu gweledigaeth a'u dyheadau hwy ar gyfer gofal optegol o ansawdd uchel yn y dyfodol. Rhoddir y 'negeseuon allweddol' o'r cyflwyniadau hyn gydag awgrym o sut y bydd y GOC yn ystyried y negeseuon hyn yn y dyfodol yn Atodiad 2.

5. Ym Medi 2009 cynhaliodd y GOC gyfarfod i aelodau'r Cyngor a'r Uwch Dîm Rheoli. Nod y cyfarfod oedd:
- Cytuno datganiad strategol lefel uchel sy'n crynhoi rôl a chyfrifoldeb y Cyngor; a
- Chytuno'r ystyriaethau allweddol a ddylai ddylanwadu ar waith y GOC yn y dyfodol.

6. Cafodd y cynllun strategol drafft a ddeilliodd o'r broses hon ei gymeradwyo ar gyfer cyfnod 2 o'r ymgynghori gan y GOC yn ei gyfarfod Tachwedd 2009.

7. Bellach fe'ch gwahoddir i gymryd rhan yng nghyfnod 2 o'r ymgynghori ac i roi sylwadau ar gynllun strategol drafft y GOC ar gyfer 2010 -15.

8. Mae'r Cyngor yn disgwyl cadarnhau'r cynllun terfynol yn ei gyfarfod Chwefror 2010 i'w weithredu o 1 Ebrill 2010 ymlaen.

Crynodeb o gynllun strategol drafft y GOC 2010-15

Pwy ydym ni:

1.1 Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) yn gorff annibynnol sy'n atebol i'r Senedd am reoleiddio optometryddion, optegwyr dosbarthu, myfyrwyr optegol a busnesau optegol yn y DU. Mae pwerau'r GOC yn deillio o Ddeddf Seneddol sef Deddf Optegwyr 1989 (a ddiwygiwyd 2005).

1.2 Mae'r GOC yn un o 13 o gyrff yn y DU a elwir yn rheoleiddwyr gofal cymdeithasol. Rydym i gyd yn amddiffyn y cyhoedd drwy reoleiddio'r proffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol. Gyda'n gilydd cawn ein hadolygu gan y Cyngor dros Ragoriaeth Rheoleiddio Iechyd a'n cymharu â'n gilydd er mwyn cyflawni rhagoriaeth.

1.3 Mae'r GOC yn cael ei lywodraethu gan fwrdd a benodir yn annibynnol o 12 o bobl sy'n gwasanaethu am hyd at bedair blynedd ar y tro. Mae chwe aelod yn weithwyr proffesiynol gofal llygaid – naill ai'n optometryddion neu'n optegwyr dosbarthu a chwech yn bobl leyg (gan gynnwys cadeirydd lleyg a benodir yn annibynnol).

Yr hyn rydym yn ei wneud:

1.4 Rydym yn amddiffyn, yn hyrwyddo ac yn cynnal iechyd a diogelwch y cyhoedd drwy:

- Gosod safonau ar gyfer addysg, hyfforddiant, perfformiad ac ymddygiad optegol;
- Cymeradwyo'r cymwysterau sy'n arwain at gofrestriad gyda'r GOC;
- Cyhoeddi cofrestr o optegwyr dosbarthu, optometryddion, myfyrwyr a busnesau optegol yn y DU; ac
- Ymchwilio a gweithredu ar bryderon nad yw aelod cofrestredig yn addas i: ymarfer, hyfforddi'n optegydd, neu gynnal busnes fel optometrydd neu optegydd dosbarthu.

Sut rydym yn gweithio:

1.5 Seilir ein gwaith ar chwe phrif werth. Ein nod yw i'n holl waith fod:

- *Yn gymesur:* gan dargedu'r materion o risg mwyaf i ddiogelwch y cyhoedd;
- *Yn atebol:* drwy gynnwys rhanddeiliaid a phartneriaid;
- *Yn gyson:* gan weithio gydag eraill i sicrhau bod ein gwaith yn deg;
- *Yn dryloyw:* gan esbonio'n penderfyniadau lle bynnag y bod modd;

- *Yn bwrpasol:* gan ganolbwyntio'n hymdrechion lle mae'r budd mwyaf i'r cyhoedd; ac
- *Wedi ei drefnu'n dda:* gan ddarparu gwerth am arian, safonau uchel o wasanaeth cwsmeriaid a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein holl waith.

Ble rydym ni nawr

1.6 Cafodd GOC ar gyfansoddiad newydd ei sefydlu ar 1 Ebrill 2009.

1.7 Mae ymagwedd ein Cyngor newydd yn ymgorffori safonau modern o ran llywodraethu yn ogystal â llwyddiannau ei ragflaenwyr. Blaenoriaethau'r Cyngor yw: cynnig arweinyddiaeth newydd ar gyfer rheoleiddio optegol; sicrhau ymwneud yn effeithiol â'n rhanddeiliaid, yn enwedig felly cleifion a'r cyhoedd, ym mhopeth rydym ni'n ei wneud; a mesur a sicrhau cyflawniad ein hamcanion.

Adeiladu ar lwyddiant:

1.8 Yn ystod y pum mlynedd diwethaf mae'r GOC wedi cyflawni moderneiddio sylweddol ein holl swyddogaethau er mwyn amddiffyn y cyhoedd yn well drwy gyfrwng rheoleiddio teg a chymesur. Mae'r cyflawniadau'n cynnwys:

(i) Cryfhau'r hyfforddiant proffesiynol mae ei angen ar weithwyr optegol proffesiynol drwy gyflwyno cynllun statudol ar gyfer addysg a hyfforddiant parhaus (CET) optegwyr dosbarthu ac optometryddion. Mae CET yn gysylltiedig â chynnal cymwyseddau safon mynediad mae eu hangen i gofrestru. Mae system ar-lein arloesol yn caniatáu i bob aelod cofrestredig ddilysu cyflawni'r gofynion CET angenrheidiol bob tair blynedd.

(ii) Ffocws cryfach ar ofynion presennol y cyhoedd a rhai'r dyfodol drwy wahanu swyddogaethau gweithredol ac anweithredol y Cyngor a chreu lle i'r Cyngor ganolbwyntio ar strategaeth a dal y weithrediaeth i gyfrif am ei chyflawni. Llunio Cynllun Dirprwyo yn 2005 sy'n nodi pa weithgareddau statudol mae'r Cyngor llywodraethu yn eu dirprwyo i bum pwyllgor statudol y GOC neu'r Cofrestrydd.

(iii) Mwy o fecanweithiau annibynnol ar gyfer sefydlu a yw gweithwyr proffesiynol yn aros yn addas i ymarfer; sefydlu Pwyllgorau Addasrwydd i Ymarfer ac Apeliadau Cofrestru annibynnol i wrando achosion yn erbyn optegwyr dosbarthu, optometryddion, myfyrwyr optegol a chyrff corfforaethol y mae eu haddasrwydd i ymarfer, hyfforddi neu gynnal busnes yn destun amheuaeth.

(iv) Amddiffyn y cyhoedd yn well wrth iddynt brynu lensys cyffwrdd ar y we; newidiadau i ddeddfwriaeth i alluogi'r cyhoedd yn y DU i fanteisio'n ddiogel ar y cyflenwad o lensys cyffwrdd drwy gyfrwng y Rhyngrwyd.

(v) Amddiffyn y cyhoedd drwy gofrestru myfyrwyr optegol i'w dal i gyfrif am eu hymddygiad wrth hyfforddi.

(vi) Sicrhau bod cleifion a'r cyhoedd yn gallu cael iawn pan fydd pethau'n mynd o chwith drwy ei gwneud yn orfodol bod gan aelodau cofrestredig o'r GOC yswiriant indemniad proffesiynol.

(vii) Gwneud yn siŵr y gall y cyhoedd gael cyngor a chymorth pan na fyddant yn fodlon ar y gwasanaeth cwsmeriaid maent wedi ei gael gan optegwyr drwy ysgwyddo gwaith comisiynu a rheoli'r Gwasanaeth Annibynnol Cwynion Defnyddwyr Optegol (OCCS).

(viii) Deall y materion sydd o bryder i'r cyhoedd, cleifion a'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu gwasanaethu drwy sefydlu Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Fframwaith Ymgynghori.

(ix) Datblygu Cynllun Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Chynllun Gweithredu er mwyn sicrhau ein bod yn gosod ac yn bodloni amcanion allweddol o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth.

(x) Creu fframwaith llywodraethu modern, gan wahanu rôl strategol y Cyngor yn amlwg oddi wrth gyfrifoldebau gweithredol y Cofrestrydd a staff a rôl ymgynghorol y pwyllgorau statudol. Erbyn hyn nid yw aelodau'r Cyngor yn eistedd ar y pwyllgorau statudol, sy'n cael eu cadeirio gan uwch weithredwyr.

(xi) Rheoli costau rheoleiddio er mwyn cadw'r costau i aelodau cofrestredig a chleifion i lawr drwy ddefnydd cost-effeithiol ar adnoddau'r GOC.

Ble rydym ni eisiau bod

Ein cenhadaeth yw cael ein cydnabod yn rheoleiddiwr gofal iechyd modern, arloesol ac effeithiol.

1.10 Dros y pum mlynedd nesaf byddwn yn canolbwyntio ar dair blaenoriaeth strategol:

Blaenoriaeth strategol 1

Datblygu'r fframwaith rheoleiddio i gefnogi gofal llygaid y DU wrth gyflwyno gofal diogel, ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion a disgwyliadau cymdeithas;

Sut fydd llwyddiant yn edrych ymhen pum mlynedd:

(i) Bydd y GOC yn cael ei gydnabod gan ein rhanddeiliaid fel rheoleiddiwr blaengar proffesiynau optegol y DU. Byddwn wedi rhagweld yn llwyddiannus ac

wedi annog newidiadau yn natur cyflwyniad gwasanaethau yn y sector optegol. Bydd hyn er lles defnyddwyr a chleifion, wedi datblygu'r fframwaith rheoleiddio mewn perthynas â'r cyfryw newidiadau er mwyn amddiffyn, hyrwyddo a chynnal iechyd a diogelwch y cyhoedd.

(ii) Byddwn yn nodi ac yn gweithredu ar risgiau allweddol defnyddwyr/cleifion a chyfleoedd i wella iechyd a diogelwch y cyhoedd drwy ddatblygiadau newydd mewn gofal llygaid.

Blaenoriaeth strategol 2

Parhau i foderneiddio'n swyddogaethau craidd a sefydlu systemau i wella er mwyn dod yn fwy effeithlon ac yn fwy effeithiol;

Sut fydd llwyddiant yn edrych ymhen pum mlynedd:

(i) Bydd gwelliannau wedi digwydd bob blwyddyn yn effeithiolrwydd cyflwyno'n swyddogaethau craidd, yn enwedig i'r swyddogaethau cofrestru ac addasrwydd i ymarfer, sy'n cael eu dangos yn glir yn ein cyfraddau llwyddo wrth gyflawni dangosyddion perfformiad allweddol mwyfwy heriol.

(ii) Tystiolaeth i ddangos ein bod wedi gwella sut rydym yn gweithio drwy gyflawni arbedion effeithlonrwydd.

Blaenoriaeth strategol 3

Hyrwyddo dealltwriaeth ehangach o'n rôl a diddori rhanddeiliaid yn ein gwaith.

Sut fydd llwyddiant yn edrych ymhen pum mlynedd:

(i) Mwy o gefnogaeth gan randeiliaid am ein gwaith a chydweithrediad ynddo.

Sut fyddwn yn cyrraedd yno

1.11. Caiff perfformiad y Cofrestrydd a'r uwch dîm ei fesur yn erbyn cynlluniau busnes blynyddol gyda'r nod o gyflawni'n tair blaenoriaeth strategol yn ystod y cyfnod pum mlynedd sy'n dechrau 1 Ebrill 2010. Diffinnir y gweithgareddau gweithredol a'r adnoddau i ddechrau cyflawni pob un o dair blaenoriaeth strategol y Cyngor ym mlwyddyn gyntaf y cynllun strategol yng nghynllun busnes 2010-11 a'r gyllideb ategol.

1.12. Yn ystod cyfnod pum mlynedd y cynllun strategol (2010-11) byddwn yn cyflawni'n cenhadaeth drwy:

Blaenoriaeth strategol 1

(i) Cael data demograffig a data am y cyflenwad a'r galw am wasanaethau optegol i lywio ein penderfyniadau; a
(ii) Ymchwilio ac adolygu mecanweithiau cyflwyno gwasanaethau optegol cyfoes a rhai sy'n dod i'r amlwg ledled y DU, Ewrop ac yn rhyngwladol, a lle bo'n briodol sicrhau bod deddfwriaeth yn cael ei newid i ganiatáu eu cyflwyno'n ddiogel ac yn effeithiol er budd y cyhoedd.

Blaenoriaeth strategol 2

(i) Adolygu pa mor effeithiol rydym yn cyflawni'n swyddogaethau busnes a statudol (gyda phwyslais arbennig ar y swyddogaethau cofrestru ac addasrwydd i ymarfer) a gweithredu ar unrhyw argymhellion sy'n deillio o'r adolygiadau hyn;
(ii) Cynyddu defnydd technoleg a'r Rhyngrwyd, lle bo'n briodol, i gyflawni ein swyddogaethau a'n negeseuon yn fwy effeithlon ac effeithiol;
(iii) Cynnwys cleifion, y cyhoedd, rhanddeiliaid optegol a rheoleiddwyr eraill i'n helpu i foderneiddio, gan gymryd i ystyriaeth arfer gorau er mwyn i ni wella'n gyson sut rydym yn cyflawni'n swyddogaethau statudol; a
(iv) Gosod ffioedd y GOC ar lefel a fydd yn sicrhau y gall unrhyw welliannau angenrheidiol i gyflwyniad ein swyddogaethau gael eu gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol, wrth gynnal arian digonol wrth gefn, ar lefel i leddfu ffactorau risg mawr.

Blaenoriaeth strategol 3

(i) Esbonio pam rydym wedi gwneud pethau mewn ffordd benodol;
(ii) Hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i'n rôl i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill drwy unrhyw fecanwaith cost-effeithiol a phriodol;
(iii) Parhau i weithredu Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid y Cyngor;
(iv) Uchafu cyfraniad pwyllgorau cynghorol statudol y GOC; a
(v) Sefydlu mecanweithiau i fesur ymwybyddiaeth rhanddeiliaid o'r GOC a'u hymwneud ag ef.

Atodiad 1 – ffurflen ymateb a chwestiynau ymgynghori

Sut i ymateb

Anfonwch eich ymatebion at **Dian Taylor,** Prif Weithredwr a Chofrestrydd, erbyn **1 Chwefror 2010** fan bellaf.

Post: 41 Harley Street, London, W1G 8DJ

E-bost: dtaylor@optical.org
Neu ewch i www.optical.org lle gwelwch fersiwn electronig o'r ffurflen hon.

Mae pob prif adran o gynllun strategol drafft y GOC yn cael ei hatgynhyrchu mewn blychau wedi eu rhifo isod. Nodwch a ydych yn cytuno neu'n anghytuno â phob adran o'r cynllun strategol drafft, neu nad oes sylwadau gennych. Hefyd mae lle i chi roi sylwadau ychwanegol, os ydych am wneud rhai.

Templed y ffurflen ymateb

Eich manylion

Enw:

Cyfeiriad:

Rhif ffôn:

E-bost:

Ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad?

Enw'r sefydliad:

Eich swydd chi:

Natur gwaith y sefydliad hwn:

Cadw mewn cysylltiad

Am fod eich mewnbwn yn bwysig i ni, hoffem gysylltu â chi o bryd i'w gilydd i roi gwybod i chi pan fyddwn yn lansio ymarferion ymgynghori a'ch gwahodd i ddigwyddiadau yn y dyfodol. Ni fyddwn yn trosglwyddo'ch data i unrhyw drydydd parti. Ticiwch yma os nad ydych am i ni gysylltu â chi fel hyn ynghylch ymgynghoriadau'r GOC:

1. Ein cenhadaeth yw cael ein cydnabod yn rheoleiddiwr gofal iechyd modern, arloesol ac effeithiol.

Mae ein cenhadaeth yn ddatganiad o ble hoffem ni fod ymhen pum mlynedd.

Cytuno
Cytuno'n rhannol
Anghytuno
Dim sylwadau

Sylwadau:

2. Blaenoriaethau strategol

Blaenoriaeth strategol 1: Datblygu'r fframwaith rheoleiddio i gefnogi gofal llygaid y DU wrth gyflwyno gofal diogel, ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion a disgwyliadau cymdeithas;

Sut fydd llwyddiant yn edrych ymhen pum mlynedd:
(i) Bydd y GOC yn cael ei gydnabod gan ein rhanddeiliaid fel rheoleiddiwr blaengar proffesiynau optegol y DU. Byddwn wedi rhagweld yn llwyddiannus ac wedi annog newidiadau yn natur cyflwyniad gwasanaethau yn y sector optegol. Bydd hyn er lles defnyddwyr a chleifion, wedi datblygu'r fframwaith rheoleiddio mewn perthynas â'r cyfryw newidiadau er mwyn amddiffyn, hyrwyddo a chynnal iechyd a diogelwch y cyhoedd.
(ii) Byddwn yn nodi ac yn gweithredu ar risgiau allweddol defnyddwyr/cleifion a chyfleoedd i wella iechyd a diogelwch y cyhoedd drwy ddatblygiadau newydd mewn gofal llygaid.

Sut fyddwn ni'n cyrraedd yno
(i) Cael data demograffig a data am y cyflenwad a'r galw am wasanaethau optegol i lywio ein penderfyniadau; a
(ii) Ymchwilio ac adolygu mecanweithiau cyflwyno gwasanaethau optegol cyfoes a rhai sy'n dod i'r amlwg ledled y DU, Ewrop ac yn rhyngwladol, a lle bo'n briodol sicrhau bod deddfwriaeth yn cael ei newid i ganiatáu eu cyflwyno'n ddiogel ac yn effeithiol er budd y cyhoedd.

Cytuno
Cytuno'n rhannol
Anghytuno
Dim sylwadau

Sylwadau:

2.2 Blaenoriaeth strategol 2: parhau i foderneiddio'n swyddogaethau craidd a sefydlu systemau i wella er mwyn dod yn fwy effeithlon ac yn fwy effeithiol**;**

Sut fydd llwyddiant yn edrych ymhen pum mlynedd:
(i) Bydd gwelliannau wedi digwydd bob blwyddyn yn effeithiolrwydd cyflwyno'n swyddogaethau craidd, yn enwedig i'r swyddogaethau cofrestru ac addasrwydd i ymarfer, sy'n cael eu dangos yn glir yn ein cyfraddau llwyddo wrth gyflawni dangosyddion perfformiad allweddol mwyfwy heriol.
(ii) Tystiolaeth i ddangos ein bod wedi gwella sut rydym yn gweithio drwy gyflawni arbedion effeithlonrwydd.

Sut fyddwn ni'n cyrraedd yno

(i) Adolygu pa mor effeithiol rydym yn cyflawni'n swyddogaethau busnes a statudol (gyda phwyslais arbennig ar y swyddogaethau cofrestru ac addasrwydd i ymarfer) a gweithredu ar unrhyw argymhellion sy'n deillio o'r adolygiadau hyn;
(ii) Cynyddu defnydd technoleg a'r Rhyngrwyd, lle bo'n briodol, i gyflawni ein swyddogaethau a'n negeseuon yn fwy effeithlon ac effeithiol;
(iii) Cynnwys cleifion, y cyhoedd, rhanddeiliaid optegol a rheoleiddwyr eraill i'n helpu i foderneiddio, gan gymryd i ystyriaeth arfer gorau er mwyn i ni wella'n gyson sut rydym yn cyflawni'n swyddogaethau statudol; a
(iv) Gosod ffioedd y GOC ar lefel a fydd yn sicrhau y gall unrhyw welliannau angenrheidiol i gyflwyniad ein swyddogaethau gael eu gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol, wrth gynnal arian digonol wrth gefn, ar lefel i leddfu ffactorau risg mawr.

Cytuno
Cytuno'n rhannol
Anghytuno
Dim sylwadau

Sylwadau:

3 Unrhyw sylwadau pellach
Os oes gennych unrhyw sylwadau pellach, defnyddiwch y dudalen hon:

Atodiad 2 – cyflwyniadau gan randdeiliaid fel rhan o gyfnod ymgynghori 1

Dyfodol strategol

1. I gynorthwyo sefydlu'r cynllun pum mlynedd, gwahoddodd y Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) wahanol grwpiau rhanddeiliaid i'w seminarau Mai, Mehefin, Gorffennaf a Medi, er mwyn cyflwyno i'r Cyngor eu disgwyliadau hwy a'u dyheadau am gyflwyniad gwasanaethau optegol ansawdd uchel yn y DU yn y tymor byr, canolig a hir.

2. Derbyniwyd cyflwyniadau oddi wrth:

Cymdeithas Clefyd Macwlaidd
Action against Medical Accidents (AvMA)
Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol i Bobl Ddall (RNIB)
Cymdeithas Brydeinig yr Optegwyr Dosbarthu (ABDO)
Cymdeithas yr Optometryddion (AOP)
Ffederasiwn Optegwyr Offthalmig a Dosbarthu (FODO)
Coleg yr Optometryddion (COpt)
Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr (RCOphth)
Darparwyr Hyfforddiant Optegwyr Dosbarthu
Darparwr y Cynllun Achredu Dosbarthu
Darparwyr Hyfforddiant Optometreg
Darparwr y Cynllun Achredu Optometreg

3. Rhoddir y prif bwyntiau a amlinellwyd gan y rhanddeiliaid hyn isod (A i H) gydag awgrym byr o sut allai'r GOC ymateb ym mhob achos. Ym mlynyddoedd cyntaf ei gynllun strategol pum mlynedd (2010-15) mae'n debyg y bydd y GOC yn parhau i gasglu gwybodaeth, ymchwilio ac adolygu i'w alluogi i ddod i benderfyniadau ac argymhellion strategol pellach.

A. Ymwybyddiaeth - deall rôl y GOC a deall y rolau gwahanol o fewn opteg

Dyhead: Gwell ymwybyddiaeth o rôl y GOC yn gyffredinol ac na ddylai'r cyhoedd gael eu drysu gan y llawer o rolau gwahanol o fewn opteg.

Sut allai'r GOC ymateb:

4. Un o dair blaenoriaeth strategol i'r GOC fydd: '*Hyrwyddo dealltwriaeth ehangach o'n rôl a diddori rhanddeiliaid yn ein gwaith'***,** gyda'r disgwyliad y bydd y Cyngor wedi llwyddo i wella cefnogaeth rhanddeiliaid i'n gwaith a'u cydweithrediad ynddo ymhen pum mlynedd. Bydd y gwaith hwn yn parhau â'r cynnydd sydd eisoes wedi ei wneud yn y flwyddyn ariannol bresennol (2009/10) mewn prosiectau cyfathrebu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r cofrestri, ac o sut i gwyno, gan gynnwys: datblygu 'pecyn cymorth' o ddeunyddiau i hybu cofrestriad ymarferwyr; taflenni gwybodaeth i gleifion am y GOC a 'Sut i Gwyno';

cymryd rhan mewn digwyddiadau a anelir at y cyhoedd a chleifion; a rhoi ein fframwaith ymgynghori a'n strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid ar waith.

B. Ymwybyddiaeth – o bwysigrwydd y prawf golwg a gwybodaeth i gleifion.

Dyhead: Cyhoedd sy'n fwy gwybodus – ynghylch gofal llygaid ac arweiniad am ble i gael gwybodaeth a chyngor anghlinigol.

Sut allai'r GOC ymateb:

5. Mae'r GOC wedi ymrwymo i weithio'n gydweithredol gydag eraill i gyflawni gwell ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o bwysigrwydd gofal llygaid. Mae'r GOC yn aelod o'r Gynghrair Iechyd Llygaid, sy'n glymblaid o'r cyrff optegol a'r elusennau gofal llygaid sy'n cydweithio i hyrwyddo iechyd llygaid gwell i bawb.

C. Systemau cyfeirio gofal iechyd a chyfeiriadau effeithiol

Dyhead: Cysondeb mewn systemau cyflwyno gofal iechyd yn y DU, yn enwedig cydraddoldeb â Chymru a'r Alban; sicrhau gofal ansawdd dda sy'n cael ei reoleiddio; a mabwysiadu arfer da o rannau eraill o'r byd a phroffesiynau eraill er lles y cyhoedd. **Dyhead**: Cyfeiriadau cyflym ar gyfer cleifion sy'n dioddef AMD a Glawcoma.

Sut allai'r GOC ymateb:

6. Mae'r Cyngor yn sensitif i'r angen i adolygu dulliau newydd a dulliau sy'n dod i'r amlwg o gyflwyno gofal llygaid i sicrhau bod y ddeddfwriaeth, y mae'r GOC yn ei defnyddio i reoleiddio'r proffesiynau, yn briodol ac yn gymesur ac yn cefnogi buddion ehangach i'r cyhoedd o'r cynnydd hwn. Un o dair blaenoriaeth strategol y GOC dros y pum mlynedd nesaf fydd:

7. **'***datblygu'r fframwaith rheoleiddio i gefnogi gofal llygaid yn y DU wrth gyflwyno gofal diogel, ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion a disgwyliadau cymdeithas***'.**

D. Optegwyr dosbarthu

Dyhead: Rôl ehangach i optegwyr dosbarthu ac optegwyr lensys cyffwrdd.

8. Cynigiwyd y dylid ystyried hawliau plygiant i optegwyr dosbarthu. Honnwyd bod hynny'n arfer cyffredin mewn rhai o wledydd Ewrop. Gwnaed y pwynt bod plygiant yn cael ei ddefnyddio mewn ymarfer lensys cyffwrdd, ymarfer golwg isel a phediatrig ac yn rhan o'r cymwyseddau craidd. Awgrymwyd bod hyn yn adnodd

sy'n cael ei wastraffu a phetai ymarfer optegwyr dosbarthu yn cael ei estyn fel hyn, y byddai'n rhyddhau amser optometryddion.

9. Awgrymwyd gan gyflwynwyr y byddai mynd yn ôl i reoleiddio dosbarthu yn llawn yn cefnogi cwmpas arfer estynedig. Hefyd awgrymwyd y dylai ymarfer lensys cyffwrdd ddod yn rhan o gymwyseddau craidd dosbarthu.

10. Hefyd cynigiodd rhanddeiliaid ysgol yrfa fwy strwythuredig i gynnwys cynorthwywyr a thechnegwyr optegol. Teimlwyd y dylid edrych yn agosach at sgiliau trosglwyddadwy.

Sut allai'r GOC ymateb:

11. Wrth gyflawni ei flaenoriaeth strategol gyntaf dros y pum mlynedd nesaf: '*datblygu'r fframwaith rheoleiddio i gefnogi gofal llygaid yn y DU wrth gyflwyno gofal diogel, ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion a disgwyliadau cymdeithas'*, bydd y GOC yn ystyried a ddylai adolygu'r drefn reoleiddio ar gyfer optegwyr dosbarthu. Os bydd adolygiad o'r fath yn cael ei gynnal, bydd yn rhaid i'r GOC wedyn ystyried y fframwaith rheoleiddio mewn perthynas ag unrhyw newidiadau y mae eu hangen er mwyn parhau i amddiffyn, hyrwyddo a chynnal iechyd a diogelwch y cyhoedd.

E. Cyflwyno Addasrwydd i Ymarfer effeithiol

Cynigiwyd **archwilio** gwahanol fodelau ar gyfer ymdrin ag achosion FTP yn erbyn aelodau cofrestredig gyda **dyhead** am fwy o gydweithrediad mewn achosion FTP cyn ac yn ystod gwrandawiadau.

Sut allai'r GOC ymateb:

12. Ail flaenoriaeth strategol y GOC am y pum mlynedd nesaf yw: '*parhau i foderneiddio'n swyddogaethau craidd a sefydlu systemau i wella er mwyn dod yn fwy effeithlon ac yn fwy effeithiol'*.

13. Bydd y GOC yn adolygu effeithiolrwydd mecanweithiau FTP presennol gyda golwg ar foderneiddio, yn unol â rheoleiddwyr eraill gofal iechyd. Nod y GOC fydd gwelliannau bob blwyddyn yn effeithiolrwydd cyflwyniad ein swyddogaethau craidd, yn enwedig o ran swyddogaethau cofrestru ac addasrwydd i ymarfer.

F. Gweithredu ar oruchwylio gwael a thorri'r Ddeddf Optegwyr

Pryder nad yw lles y cyhoedd yn cael ei arddel orau gan y cyflenwad o wasanaethau optegol gan bobl sydd heb eu cofrestru sy'n gweithio 'dan oruchwyliaeth'.

Canfyddiad bod y GOC yn aneffeithiol wrth ymdrin â'r cyflenwad anghyfreithlon o wasanaethau optegol sy'n cael eu cyfyngu o dan y Ddeddf i weithwyr proffesiynol cofrestredig.

14. Awgrymodd un cyflwynydd y dylai'r GOC adolygu'r cyfle o dan y Ddeddf i bobl weithio 'dan oruchwyliaeth'.

15. Bydd y GOC bob amser yn ymchwilio i unrhyw honiad o oruchwyliaeth annigonol gan aelodau cofrestredig. Yna mater i'r Pwyllgor Ymchwilio yw a yw honiad yn haeddu cyfeiriad at wrandawiad FTP ac a yw'r dystiolaeth sydd ar gael iddo yn ddigon cadarn i gyfiawnhau disgwyliad rhesymol o ganlyniad FTP llwyddiannus. Mae'r GOC wedi cymryd camau llwyddiannus yn y flwyddyn ariannol hon yn erbyn Optegwyr Boots (corff corfforaethol cofrestredig) lle nad oedd trefniadau goruchwylio yn ddigonol i amddiffyn y cyhoedd.

16. Disgwyliad y proffesiynau oedd mai'r GOC fyddai'r corff i fynd ar drywydd erlyniadau troseddol yn erbyn cwmnïau neu unigolion heb eu cofrestru sy'n torri'r Ddeddf Optegwyr. Mae'r GOC yn ymchwilio a bydd yn parhau i ymchwilio (yn unol â Phrotocol Erlyniadau Troseddol y GOC) i honiadau o'r cyfryw doriadau'r Ddeddf. Mae amlder cwynion o'r fath i'r GOC yn cynyddu'n gyson. Yn 2008 dygodd y GOC erlyniad troseddol llwyddiannus yn erbyn Vision Direct Ltd am gyflenwi lensys cyffwrdd dros y Rhyngrwyd yn anghyfreithlon. Nid oes gan y GOC y pwerau am 'arolygiaeth' yn debyg i un Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr a byddai cyflwyno arolygiaeth o'r fath yn dod â goblygiadau cost sylweddol.

G. Cydweithrediad a dylanwad rhyngwladol

Dyhead: Parhau dylanwad y GOC ar ddatblygu safonau a chodau ymddygiad ledled Ewrop, yn enwedig drwy archwilio Diploma ECOO a gweithredu Cyfarwyddeb yr UE ar gydnabyddiaeth gilyddol cymwysterau. Nod cyflwynwyr oedd gweld y GOC yn bod yn gryfach, yn amlycach, ac yn fwy agored i gynulleidfa ehangach a bod ganddo rôl Ewropeaidd ehangach.

17. Gwelodd y cyflwynwyd yr angen i'r GOC barhau i gymryd rhan yn Ewrop gyda nifer o awgrymiadau am ddatblygu gwefan y GOC er mwyn rhoi gwybodaeth ychwanegol i gleifion a'r cyhoedd. Awgrymwyd hefyd am fod ganddo brofiad gwerthfawr o weithredu Cyfarwyddebau Ewropeaidd, y gallai'r GOC ystyried cynnal seminar neu gynhadledd ar gyfer 'awdurdodau cymwys' eraill Cyfarwyddebau ynghylch yr ystyriaethau ymarferol sydd ynghlwm wrth gymhwyso'r Gyfarwyddeb, gyda ffocws arbennig ar optometreg ac opteg.

H. Rôl y GOC i ddiwallu heriau'r dyfodol

Rôl: Cynigiwyd gosod safonau ac archwilio cyflawniad safonau gan aelodau cofrestredig fel rôl hanfodol y GOC gyda'r nod yn y pen draw o wella iechyd llygaid ac atal dallineb fel ei brif ffocws.

1. Disgwyliadau'r cyflwynwyr am y GOC oedd i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes offthalmeg ddosbarthu ac optometreg yn derbyn hyfforddiant priodol a chyflwyno gofal i safon dderbyniol; y dylai fod gan gleifion sicrwydd y cânt eu trin yn dda gan ymarferwr cymwys; ac y dylai fod gwiriadau ar waith i sicrhau safonau da o ymddygiad ac ymarfer.

2. Cafodd cydweithrediad wrth osod safonau a datblygiad dulliau newydd o weithio er lles y cyhoedd eu harddel at y dyfodol, yn ogystal â chydweithrediad wrth gasglu a dadansoddi gwybodaeth i arwain penderfyniadau'r GOC. Er ei bod yn anghyffredin i'r GOC ddirprwyo cyhoeddi canllawiau ar ymddygiad proffesiynol a moeseg i Goleg yr Optometryddion a'r ABDO, roedd cyflwynwyr o blaid parhad y trefniant hwn, ar yr amod bod y GOC yn cadw lefel briodol o oruchwyliaeth o'r swyddogaethau hyn ac yn sicrhau eu bod yn parhau i ganolbwyntio ar amddiffyn y cyhoedd.

3. Cafodd parhad y GOC fel rheoleiddiwr annibynnol ac unigol dros y proffesiynau optegol ei enwi fel dyhead un cyflwynydd.

4. Nodwyd yr **heriau** canlynol:

a. Mae poblogaeth sy'n heneiddio yn golygu galwadau uwch am wasanaethau i reoli cyflyrau fel Dirywiad Macwlaidd sy' Gysylltiedig ag Oedran (AMD) a glawcoma. Mae lefelau gordewdra cynyddol yn arwain at nifer cynyddol o bobl â diabetes. Hefyd mae newidiadau yng ngofynion gwasanaethau o ganlyniad i newidiadau yng nghyfansoddiad ethnig cymunedau. Cafodd newidiadau aruthrol yn y pum mlynedd diwethaf eu cydnabod e.e. yn nhriniaeth cataractau a rhestri aros; ac yn natblygiad yr ymarferwr rhagnodi annibynnol fel categori newydd o aelod cofrestredig i helpu i fodloni'r galw yn y dyfodol am ofal llygaid /gwasanaethau iechyd llygaid yn y gymuned.
b. Gydag offer cyfrifiadurol a newidiadau technolegol bydd angen mwy o reolaeth ar ddata ochr yn ochr â chyflwyno gwasanaethau clinigol ac ati. Cafodd y GOC ei herio am i ba raddau y gallwn sicrhau bod gan fyfyrwyr yr wybodaeth a'r sgiliau mae eu hangen i'w paratoi'r briodol am eu gyrfa yn y dyfodol.
c. Mae'r datblygiadau hyn yn creu heriau ychwanegol o sicrhau bod gan aelodau cofrestredig yr wybodaeth ddiweddaraf a'u bod yn addas i ymarfer.
Gwelwyd ail-ddilysu fel bod yn allweddol i gyflawni'r nod hwn.
d. Amlygwyd mentrau diweddar ar gyfer gwell gwasanaethau yn y sector gofal sylfaenol, gan gydnabod bod hyn yn creu her o ran rheoleiddio i gefnogi cyflwyniad llwyddiannus y mentrau hyn.
e. Mae mwy o gydweithrediad a chyfnewid byd-eang yn cynnig cyfleoedd gwell i ymarferwyr a rheoleiddwyr i ddysgu oddi wrth ei gilydd. Mae gwaith effeithiol yn y

DU ar draws y pedair gwlad yn hanfodol hefyd i sicrhau na fydd cleifion ac ymarferwyr fel ei gilydd yn cael ei hanfanteisio gan fodelau cyflwyno gwahanol.
f. Mae'r amgylcheddau y mae aelodau cofrestredig yn gweithio ynddynt yn newid - er enghraifft yn y dyfodol fe allai hyn gynnwys gwaith mewn poliglinigau.
g. Mae perygl y gallai mesur perfformiad y GOC yn erbyn profiad cleifion o gael eu 'trin yn dda' gwmpasu agweddau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio ac felly y tu allan i'w reolaeth. Er enghraifft, gallai prawf golwg cwbl foddhaol gael ei ddilyn o bosibl brofiad manwerthu llai na boddhaol. Teimlwyd y na fyddai angen rheoleiddio'r tîm cyfan ond ei bod yn bwysig i reolwyr sicrhau bod cynorthwywyr optegol a derbynyddion yn cael eu hyfforddi i gyfleu'r un gwerthoedd â chlinigwyr.
h. Roedd llawer o achosion FTP yn ymwneud â chyfathrebu a chadw cofnodion yn wael. Rhaid i gleifion ddeall yr hyn sy'n cael ei wneud a pham.
i. Soniwyd am effaith twf y pum darparwr corfforaethol mwyaf gwasanaethau optegol yn y DU. Mae practisau canolig eu maint yn cyfrif am 5-10% o'r farchnad ac fe allant fod dan bwysau. Bydd angen i'r GOC fod yn ymwybodol o effaith bosibl hyn ar ddarpariaeth gofal optegol.

Atodiad 3 – ymatebion ysgrifenedig i gyfnod ymgynghori 1

Derbyniodd y GOC ddeg ymateb ysgrifenedig i'r ymgynghoriad. Daethant oddi wrth:

- Cymdeithas Gwneuthurwyr Lensys Cyffwrdd (ACLM)
- Cymdeithas yr Optometryddion (AOP)
- Ffederasiwn Optegwyr Offthalmig a Dosbarthu (FODO)
- Optometry Scotland
- Optometreg Cymru
- Patient Concern
- Pedwar ymateb gan aelodau cofrestredig unigol

Crynodeb gweithredol o'r ymatebion

C1. Beth ddylai rôl y GOC fod mewn perthynas â chleifion?
Teimlai nifer o ymatebwyr y dylai'r GOC helpu i wneud y cyhoedd a'r sector optegol yn fwy ymwybodol o'i rôl mewn amddiffyn y cyhoedd. Gwnaed awgrymiadau am y mathau o wybodaeth y dylai'r GOC drefnu eu bod ar gael yn ehangach i'r cyhoedd. Awgrymwyd hefyd y dylai'r Cyngor wneud mwy i hysbysu'r cyhoedd am yr angen am archwiliadau llygaid rheolaidd.

Blaenoriaeth yng ngolwg rhai cyrff oedd bod y GOC yn rhoi terfyn ar werthiannau anghyfreithlon lensys cyffwrdd. Awgrymodd Patient Concern siopwyr dirgel ac ymweliadau dirybudd i sicrhau bod aelodau cofrestredig yn bodloni'r safonau.

C2. Beth mae angen i gleifion ei wybod amdanom ni a pham?
Awgrymodd nifer o ymatebwyr waith i adael i'r cyhoedd wybod bod optegwyr yn cael eu cofrestru a'u rheoleiddio. Awgrymwyd bod y GOC yn targedu grwpiau allweddol fel swyddefdydd Cyngor ar Bopeth, Cynghorau a llyfrgelloedd gyda gwybodaeth. Gwnaeth Patient Concern nifer o awgrymiadau am wybodaeth yr hoffent hwy iddi fod ar gael i'r cyhoedd yn fwy.

C3. Beth allwn ni ei wneud i gefnogi cleifion?
Awgrymwyd yn helaeth drefnu bod llawer o wybodaeth ar gael i'r cyhoedd a gwelodd nifer o gyrff leihau jargon a defnyddio iaith glir yn bwysig.

Gofynnodd Patient Concern am fod yn rhan o weithgorau ar faterion sy'n uniongyrchol berthnasol i'r gofal mae cleifion yn ei dderbyn.

C4. Sut dylem ni weithio gyda chyrff eraill i amddiffyn y cyhoedd?

Roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol am weithio'n agos gyda'i gilydd ac ymgynghori agored, tryloyw. Awgrymodd nifer o gyrff weithio agosach o ddydd i ddydd rhyngddynt hwy a'r GOC. Awgrymwyd gweithio'n agosach â chyrff cleifion fel ffordd o helpu i atal problemau cyn iddynt godi.

C5. Sut mae'r cyhoedd yn gwybod bod gweithwyr optegol proffesiynol yn gwneud gwaith da?
Teimlai'r cyrff optegol y byddai hysbysebu safonau'r GOC a'r lefel gymharol isel o achosion FTP yn helpu i gynyddu hyder y cyhoedd mewn optegwyr.

Roedd rhai aelodau cofrestredig yn pryderu am duedd ganfyddedig i optegwyr ddod yn 'geidwaid siop', a bod boddhad cleifion yn dibynnu a oeddent yn hoffi eu sbectol yn hytrach nag a wnaeth yr optegydd swydd dda yn glinigol.

Teimlai ymatebwr arall y dylai ymarferwyr gael eu barnu yn ôl eu canlyniadau – e.e. os gall claf weld yn dda o'i enedigaeth hyd ei farwolaeth ac a ydyw wedi cael cynnig pob triniaeth sydd ar gael am eu cyflwr.

C6. Yn ogystal â'r hyn rydym yn ei wneud nawr, beth allwn ei wneud i gefnogi aelodau cofrestredig i ddiwallu ein safonau?
Roedd nifer o awgrymiadau mewn perthynas ag Addysg a Hyfforddiant Parhaus (CET) - y dylai optometryddion wneud mwy o CET mewn perthynas â lensys cyffwrdd, y dylai gael ei dargedu i'r meysydd risg mwyaf i gleifion a bod mwy o CET wyneb i wyneb yn digwydd.

Awgrymwyd bwletin misol sy'n cynnig adborth a phwyntiau dysgu o gwynion ac achosion FTP tra roedd galwadau hefyd am ariannu CET yn well. Teimlai un ymatebwr y gallai optometryddion geisio statws 'siartredig' os oeddent wedi gwneud hyfforddiant ychwanegol.

C7. Beth ddylai ein rôl ni fod pan na fydd pethau'n mynd yn dda?
Roedd thema gyffredinol o siarad am gydbwysedd a thegwch rhwng aelodau cofrestredig ac achwynwyr. Soniwyd am yr angen i roi gwybodaeth drylwyr i aelodau cofrestredig drwy gydol y broses.

Awgrymodd aelod cofrestredig a fu'n destun cwyn ymagwedd fwy cymodol. Awgrymodd aelod cofrestredig arall ymagwedd adsefydlu yn hytrach na chosbi.

C8. Sut dylem ni gefnogi cleifion sy'n codi pryderon?
Roedd yr atebion i'r cwestiwn hwn yn debyg i'r rhai i gwestiwn saith – sef arwain o ran bod yn ddiduedd, yn deg a darparu gwybodaeth drwy gydol y broses. Unwaith eto, awgrymodd nifer o ymatebwyr ymagwedd gymodol.

C9. Sut dylem ni gefnogi aelodau cofrestredig sy'n codi pryderon?
Nodwyd ei bod yn anodd i weithiwr proffesiynol godi pryder yn erbyn cydweithiwr ac y dylai'r GOC ymdrin â'r cyfryw gwynion yn arbennig o sensitif.

C10. Sut dylem ni gefnogi pobl eraill sy'n codi pryderon?
Rhoddodd llawer o grydd atebion tebyg i'r cwestiwn ag i gwestiynau wyth a naw. Rhoddodd un corff optegol un ateb i bob un o'r tri chwestiwn gan ailadrodd eu pwynt am drin achosion yn deg yn ôl eu haeddiannau. Teimlai'r un corff fod y GOC wedi anwybyddu toriadau'r Ddeddf Optegwyr roeddent hwy wedi eu codi.

C11. Beth ddylem ni fod yn ei wneud i amddiffyn y cyhoedd?
Cododd nifer o ymatebwyr bwyntiau am ymdrin â gwerthu sbectol a lensys cyffwrdd heb gofrestru. Awgrymwyd mwy o ymgysylltu a mwy o ymwybyddiaeth gyhoeddus, yn ogystal â'r GOC yn ei feincnodi ei hun yn erbyn rheoleiddwyr eraill yn y DU ac mewn mannau eraill. Soniodd un arall am fwy o ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd a mwy o gyfranogiad.

Rhoddodd un corff optegol ymateb manwl am sut y dylai'r GOC fod yn rheoleiddiwr o safon orau'r byd – gan ddiffinio safon orau'r byd fel bod yn gymesur, yn bwrpasol, yn deg ac yn gost-effeithiol yn hytrach na thicio blychau, bod yn fiwrocrataidd, yn or-reoleiddiol neu'n chwyddedig. Galwant am i'r GOC herio unrhyw dorri'r Ddeddf Optegwyr gan bobl a oedd heb gofrestru ac i beidio ag ofni gwthio terfynau deddfwriaeth, gan honni mai dyma'r unig ffordd y byddai'r Adran Iechyd yn cymeradwyo deddfwriaeth newydd.

Cyhoeddwyd Rhagfyr 2009 gan y Cyngor Optegol Cyffredinol
41 Harley Street, London, W1G 8DJ
www.optical.org